

# Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd

## E&S(4)-19-12 papur 1

### Craffu ar waith Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

#### Yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

##### Portffolio

1. Mae gan fy mhortffolio gyfrifoldeb trawsbynciol dros ddatblygu cynaliadwy, ac mae'n tynnu polisiau ynghyd ar yr amgylchedd ac iechyd a lles anifeiliaid.
2. Mae'n amlwg bod y tri maes polisi hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ddwy thema allweddol, sef gwella cynaliadwyedd a lles, sydd wrth wraidd ein Rhaglen Lywodraethu.

##### Rhaglen Lywodraethu

3. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn amlinellu'r camau penodol rydyn ni'n eu cymryd. Mae hefyd yn egluro sut byddwn ni'n barnu a yw'r rhain ar y trywydd iawn a sut byddwn yn asesu cynnydd o ran mynd i'r afael â'r heriau hirdymor y mae Cymru'n eu hwynebu.
4. Rwy'n atebol yn benodol am sicrhau ein bod yn cyflawni mewn nifer o feysydd yn y rhaglen – yn fwyaf amlwg yn y penodau Twf a Swyddi Cynaliadwy (1), Cartrefi Cymru (6), Mynd i'r Afael â Thlodi (9), Cymunedau Gwledig (10) a'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd (11).
5. Yn **Atodiad 1** ceir y diweddaraf ar y cynnydd ynghylch y camau allweddol rwy'n gyfrifol amdanynt yn y Rhaglen Lywodraethu.
6. Fodd bynnag, mae'n rhaglen ar gyfer cydweithredu ar draws adrannau'r Llywodraeth a byddwn am i bawb yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector gydnabod yr agenda hwn a bwrw ymlaen â'r agenda mewn partneriaeth â ni.

##### Cyllideb

7. Gellir crynhoi fy nghyllideb fel a ganlyn:

	<b>Llinell sylfaen 2011-12* £'000</b>	<b>Cyllideb derfynol 2012-13 £'000</b>	<b>Cynlluniau dangosol 2013-14 £'000</b>	<b>Cynlluniau dangosol 2014-15 £'000</b>
<b>Refeniw**</b>	262,326	265,183	265,755	269,201
<b>Cyfalaf</b>	73,811	61,629	54,238	54,238
<b>Cyfanswm</b>	336,137	326,812	319,993	323,439

\* Ar sail ail Gyllideb Atodol Chwefror 2012.

\*\* Mae'r gyllideb hon yn ymwneud â chyllidebau refeniw nad yw'n arian parod, gan gynnwys costau dibrisio asedau o ran Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a Fferm Pwllpeiran.

8. Mae **Atodiad 2** yn rhoi dadansoddiad o'r gyllideb, fesul cam gweithredu a fesul Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) o fewn pob cam gweithredu, ynghyd â manylion y ddau newid yn y gyllideb atodol yn ystod 2011/12. Gellir defnyddio'r tabl hwn hefyd i bennu lefel y buddsoddiad fesul cam gweithredu a gyhoeddwyd, gyda llawer o ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu yn cyfeirio at y rhain.
9. Mae **Atodiad 3** yn rhoi esboniadau naratif o'r newidiadau a nodir uchod i'r gyllideb atodol yn Atodiad 2. Mae hyn yn rhoi esboniad tryloyw o'r holl newidiadau i'r gyllideb sydd wedi'u rhoi ar waith yn fy mhortffolio o'r gyllideb derfynol i'r newidiadau atodol. Oherwydd amseru proses gyfredol y cyfrifon drafft ar gyfer 2011/12, nid oes modd rhoi alldro wedi'i archwilio ar gyfer eleni ar hyn o bryd.

### ***Cyrff yr amgylchedd***

10. O ran cyrff yr amgylchedd, roedd yr alldro terfynol yn 2010-11 ac ail gyllideb atodol 2011-12 fel a ganlyn:

	<b>2010-11 (Alldro Terfynol)</b>	<b>2011-12 (fel yn yr ail gyllideb atodol)</b>
	<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Asiantaeth yr Amgylchedd	21,619	22,770
Cyngor Cefn Gwlad Cymru	37,175	38,994
Comisiwn Coedwigaeth	23,007	20,495

Mae hyn yn cynnwys darpariaethau o'r cyllidebau ar gyfer gweithgareddau diogelu'r amgylchedd a rheoli perygl llifogydd.

### ***Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol***

11. Roedd cynnydd yn y ffigurau cymharol ar gyfer gwariant Llywodraeth Cymru ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol o £32m yn 2007-08 i bron £53m yn 2011-12:

<b>Blwyddyn Ariannol</b>	<b>Cyfalaf (£m)</b>	<b>Refeniw (£m)</b>	<b>ERDF (£m)</b>	<b>CYFANSWM (£m)</b>
<b>2007-08</b>	15.5	16.7	0	32.2
<b>2008-09</b>	22.8	12.8	0	35.6
<b>2009-10</b>	22.9	18.6	3.3	44.8

<b>2010-11</b>	30.3	20.1	17.1	67.5
<b>2011-12</b>	23.7	19.7	9.5	52.9
<b>2012-13</b>	20.7	21.0	6.0	47.7
<b>2013-14</b>	9.8	27.3	6.1	43.2
<b>2014-15</b>	9.8	27.3	-	37.1

\*Y ffigurau hyn yw: alldro terfynol 2010/11; fel yr ail gyllideb atodol ar gyfer 2011/12; a chyllidebau terfynol 2012-13 ac ymlaen.

\*\*Mae'r holl ffigurau'n cyfrif am gyfanswm cyllid Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyllid cyfalaf a refferiw.

12. Er ein bod ni wedi bod mewn sefyllfa yn y gorffennol lle'r oedd cyllidebau'n cynyddu'n flynyddol, nid yw hyn yn wir bellach. Yn sgil yr Adolygiad o Gwariant diwethaf yn y DU (Hydref 2010), cafodd Llywodraeth Cymru lai o arian. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar raglenni cyfalaf fel rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

13. Nid wyf yn rhagweld newidiadau sylweddol i'r cyllidebau dangosol dros y blynyddoedd nesaf, a byddwn yn parhau i ymchwilio i gyfleoedd i wneud y gorau posibl o'r buddsoddiad i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

### ***Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop***

14. Mae hefyd yn bwysig nodi, er bod nifer o'r cyllidebau cyfalaf yn fy mhortffolio wedi cael eu torri'n sylweddol yn ystod cyfnod y gyllideb bresennol, ein bod ni wedi llwyddo i ddenu cyllid sylweddol gan yr UE drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF). Dyma rai o'n cynlluniau mawr:

- Bydd Arbed (ein cynllun effeithlonrwydd ynni ar sail ardal) yn gwella effeithlonrwydd ynni o leiaf 4,790 o gartrefi yng Nghymru erbyn diwedd 2015. Bydd cam 2 Arbed yn cynnig buddsoddiad o oddeutu £45m dros bedair blynedd, gyda £34m o hyn yn gyllid ERDF.
- Nod rhaglen Ynni'r Fro yw hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa gymunedol. Ceir arian cyfatebol o £7m drwy gyllid ERDF i gyd-fynd â chyfanswm buddsoddiad o £15m dros bedair blynedd.
- Yn achos rheoli perygl llifogydd, mae'n cyllidebau'n cael eu defnyddio fel arian cyfatebol i gyfraniad ERDF o £42m dros bum mlynedd. Mae hyn yn cyflwyno rhaglen o 29 o gynlluniau amddiffyn rhag llifogydd ac amddiffyn yr arfordir a fydd yn lleihau perygl i fwy na 3,000 o gartrefi a busnesau.

### ***Deddf y Môr 2009***

15. Er mwyn bodloni dyletswyddau newydd o dan Ddeddf y Môr 2009, rwyf wedi sefydlu grŵp trawsbynciol Llywodraeth Cymru i weithio ar brosiect cynllunio morol, gyda swyddogion o feysydd polisi allweddol, gan weithio

ar raglen fanwl i ddatblygu hyn. Caiff yr adnoddau gofynnol i gyflawni'r prosiect eu hadolygu wedi i'r rhaglen fanwl gael ei hystyried. Costau staff yw'r prif gostau sydd wedi'u gwario hyd yn hyn.

### ***Rheoliadau Adeiladu***

16. Nid yw datganoli rheoliadau adeiladu yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol i gyrff eraill yng Nghymru ar hyn o bryd. Fodd bynnag, os byddwn yn gwneud newidiadau penodol sy'n berthnasol i Gymru yn unig, mae'n bosibl y bydd costau ychwanegol yn codi. Caiff hyn ei ystyried wrth ystyried unrhyw newidiadau i reoliadau adeiladu yng Nghymru a gallaf eich sicrhau y bydd hyn yn digwydd hyn fel rhan o waith llunio polisi ar sail tystiolaeth gadarn.
17. Ceir gofynion ychwanegol o ran deddfwriaeth a pholisi yn sgil y rheoliadau adeiladu datganoledig, sy'n golygu bod goblygiadau o ran adnoddau i Lywodraeth Cymru. Mae staff wedi bodloni rhai o'r gofynion ychwanegol hyn. Hefyd mae rhai aelodau ychwanegol o staff wedi'u hymrwymo yn sgil rhoi'r pwerau i Gymru. Nodwyd yr adnoddau ychwanegol hyn ac mae'r costau ychwanegol wedi cael eu hystyried yn y gyllideb.

### ***Iechyd a Lles Anifeiliaid***

18. Fel yr holodd y Pwyllgor yn ei gylch, amcangyfrifwyd mai £366,000 oedd y gwariant ar weithgarwch lles anifeiliaid yn 2011-12. Mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru graffu ar y ffigur alldro dros dro hwn, ac mae'n rhaid ei ystyried fel ffigur dros dro nes i hyn ddigwydd.
19. Roedd y gyllideb ddatganoledig o £20.8m ar gyfer Iechyd a Lles Anifeiliaid gan Defra yn 2011-12 yn cynnwys £2.120m ar gyfer Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS). Mae'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Bwyd a Rhaglenni Ewropeaidd yn gyfrifol am BCMS. Y cyfanswm sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru yw £18.7m. Amcangyfrifir mai £18.4m yw'r alldro, yn amodol ar graffu gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac mae'n rhaid ei ystyried fel hyn nes i'r gwaith gael ei gwblhau.
20. Diben £17.6m o'r gyllideb ddatganoledig iechyd a lles anifeiliaid oedd ariannu'r gwasanaethau a ddarperir yng Nghymru gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol (AHVLA), a'r alldro a ragwelir ar gyfer AHVLA yn erbyn y gyllideb hon yw £17.1m – eto ffigur alldro yw hwn yn amodol ar graffu gan Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n rhaid ei ystyried fel ffigur dros dro nes i hyn ddigwydd.
21. Mae'r gyllideb sy'n weddill yn cefnogi ystod o weithgareddau gwylidwriaeth, samplu, profi a gorfodaeth fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau TSE, ac mae'n cynnwys iawndal o £134,000 ar gyfer diadellau â chlefyd y crafu. Hefyd ceir taliad i'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer archwiliadau a gwylidwriaeth iechyd a lles anifeiliaid.

22. Yn ogystal â'r cyllid datganoledig, roedd Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer lechyd a Lles Anifeiliaid, oedd hefyd yn cynnwys cymorth ar gyfer gweithgarwch lles. O'r gyllideb o £600,000 sydd wedi'i dyrannu, amcangyfrifir bod £367,000 yn cefnogi'r Rhaglen lechyd Gwenyn yn 2011-12. Mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru graffu ar y ffigurau alldro dros dro hyn, ac mae'n rhaid eu hystyried fel ffigurau dros dro nes i hyn ddigwydd.

### **TB Gwartheg**

23. Cyllideb y Llinell Wariant yn y Gyllideb 2272 (Taliadau Lladd TB, costau a derbynebaw) ar gyfer 2010-11 oedd £11.66m (gan gynnwys iawndal). Cyfanswm yr iawndal oedd £12.17m. Roedd adennill peth o'r incwm o garcasau yn gwrthbwysu hyn yn rhannol. £11.41m oedd yr alldro terfynol.

24. Cyllideb y Llinell Wariant yn y Gyllideb 2272 (Taliadau Lladd TB, costau a derbynebaw) ar gyfer 2010-11 oedd £11.66m (gan gynnwys iawndal). Amcangyfrifir mai'r iawndal yw £13.28m. Mae adennill incwm o garcasau yn gwrthbwysu hyn yn rhannol. Amcangyfrifir mai'r alldro yw £11.94m. Mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru graffu ar y ffigurau alldro dros dro hyn, ac mae'n rhaid eu hystyried fel ffigurau dros dro nes i hyn ddigwydd.

25. Ar gyfer 2011-12, amcangyfrifir mai gwariant cyllideb y Rhaglen Dileu TB yw £3.51m. Mae angen i Swyddfa Archwilio Cymru graffu ar y ffigurau alldro dros dro hyn, ac mae'n rhaid eu hystyried fel ffigurau dros dro nes i hyn ddigwydd.

26. Mewn perthynas ag ymchwil i TB Gwartheg, mae rhaglen ymchwil genedlaethol (Prydain) sylweddol yn cael ei chynnal, gyda Defra yn ei rheoli ar ran yr holl weinyddiaethau.

27. Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi rheoli unrhyw brosiectau ymchwil ffurfiol, ariannodd Llywodraeth Cymru un prosiect gan y Sefydliad Roslin yng Nghaeredin, gyda phroses ymchwil a datblygu Defra yn rheoli'r prosiect hwn. Gwnaed y taliad olaf o £24,000 ar gyfer y gwaith hwn yn 2011/12. Mae gwybodaeth am y prosiect hwn, *'a preliminary analysis of existing data to provide evidence of a genetic basis of cattle to infection with Mycobacterium bovis and for reactivity to currently used immunological diagnostic tests'* i'w gweld ar wefan Defra.

28. Mae gwaith ymchwil arall i agweddau penodol ar y Rhaglen Dileu TB wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru er mwyn llywio penderfyniadau'r Gweinidog ar y Rhaglen Dileu TB, ac mae'n rhan o waith dadansoddi presennol y Rhaglen. Yn 2011/12, amcangyfrifir mai £2.6m yw cyfanswm gwariant o'r fath; mae hyn yn amodol ar graffu gan Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n rhaid ei ystyried fel ffigur dros dro nes i hyn ddigwydd.

## **Blaenoriaethau**

29. Er nad oes modd mynd i'r afael â'm portffolio cyfan yn y papur hwn, rwyf wedi amlinellu manylion pellach isod ynghylch rhai o'm blaenoriaethau, gan ystyried y meysydd penodol y mae'r Pwyllgor wedi nodi sydd o ddiddordeb iddo.

## ***Datblygu Cynaliadwy***

30. Rydyn ni wedi ymrwymo i'r Cynllun Datblygu Cynaliadwy, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, sy'n amlinellu sut byddwn yn defnyddio'n pwerau datganoledig, gan gynnwys ym meysydd iechyd, trafndiaeth ac addysg, i wneud ein gwasanaethau cyhoeddus yn gynaliadwy a lleihau effaith amgylcheddol Cymru ar y byd.

31. Lansiais ymgynghoriad y mis diwethaf (Mai 2012) ar gynigion deddfwriaethol ar gyfer datblygu cynaliadwy. Mae hyn er mwyn cryfhau'n dyletswydd statudol i sicrhau'i bod yn ganolog i'n ni ffordd o feddwl a ffordd o feddwl y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Bwriedir cynnal ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn yr hydref 2012, gyda'r bwriad o gyflwyno'r Bil yn 2013.

<http://wales.gov.uk/consultations/sustainabledevelopment/sdbill/?lang=cy>

32. Rwyf wedi bod yn glir iawn fy mod eisiau i'r Bil wella ansawdd bywyd pobl Cymru, yn enwedig y rheini sy'n byw yn ein cymunedau lleiaf ffyniannus. Rydym am fod yn genedl un blaned mewn ffordd sy'n ein gwneud yn gymdeithas decach a mwy cyfiawn, gan adeiladu ar ein gwaith i leihau tlodi. Caiff yn y ddwy thema ganolog o gyfiawnder cymdeithasol a lleihau'n defnydd o adnoddau eu hadlewyrchu yn yr ymgynghoriad, ac rwy'n croesawu'ch adborth ar sut rydych chi'n meddwl y gall y cynigion hyn helpu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a fydd yn ein helpu i fod yn genedl fwy cynaliadwy.

## ***Y Rhaglen Cymru Fyw***

33. Cyhoeddais y mis diwethaf ein bod yn bwriadu creu un corff yng Nghymru â'r rôl allweddol o amddiffyn a rheoli'n hadnoddau naturiol, gan ein helpu i symleiddio'r prosesau rheoleiddio.

34. Y dyddiad arfaethedig ar gyfer sefydlu'r corff newydd yw 1 Ebrill 2013. Bydd hyn, i bob pwrpas, yn diddymu Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth yn parhau yn Lloegr neu yn Lloegr a'r Alban.

35. Yn ogystal, mae rheoli adnoddau naturiol wedi bod yn destun ymgynghoriad 'Cymru Fyw', ac yn dilyn hyn roedd papur gwyrdd 'Cynnal Cymru Fyw'; daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ar 31 Mai.

<http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/sustainingwales/?lang=cy&status=open>

36. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd wrthi'n cael eu hystyried, gyda'r bwriad o gyhoeddi cynigion fel Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd yn 2013.
37. Mae'n hanfodol bod pobl a busnesau ledled Cymru yn cymryd rhan yn y broses ymgynghori fel bod Bil yr Amgylchedd yn cynnig deddfwriaeth amgylcheddol gref a symlach sy'n galluogi pob cymuned yng Nghymru i fod yn ffyniannus.
38. Bydd gwaith ar y Bil hwn yn cyd-fynd yn agos â gwaith ar y Bil Datblygu Cynaliadwy, yn ogystal â'r rhaglen waith sy'n gysylltiedig â sefydlu'r un corff i Gymru.

### ***Bioamrywiaeth***

39. Mae bioamrywiaeth yn ganolog i gynnal ecosystemau iach. Rydyn ni wedi cydnabod pwysigrwydd bioamrywiaeth drwy Strategaeth Amgylcheddol Cymru, wrth ddatblygu Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol a thrwy ymgynghoriad Cynnal Cymru Fyw.
40. Rwy'n cydnabod bod amddiffyn a hybu bioamrywiaeth o bob math yn hanfodol i'n dull rheoli ar sail ecosystem. Dyna pam y bydd y Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau y cyhoeddais ar 8 Mai yn cynnig £1 miliwn ychwanegol i gyflwyno prosiectau sy'n cyfrannu at wneud hyn.
41. Bydd angen datblygu gwaith traddodiadol i amddiffyn cynefinoedd a rhywogaethau yn fentrau tirlun mawr i helpu i gyflawni'r dull rheoli ar sail ecosystem.
42. Dylai cynlluniau amaeth-amgylchedd a chynlluniau eraill alluogi derbynwyr i gynnig manteision ecosystem i anifeiliaid sy'n peillio a rhywogaethau a allai gynnig ystod o fanteision i bob sector economi, er nad yw'r gwaith mor uchel ei broffil â'r gwaith hanfodol gyda gwalch y pysgod a'r barcud coch.

### ***Amgylchedd Mewndrefol a Chyfiawnder Amgylcheddol***

43. Rwyf hefyd yn bryderus mai yn ein cymunedau tlotaf, ac yn enwedig mewn ardaloedd trefol, y ceir yr amgylcheddau lleol gwaethaf gyda thipio anghyfreithlon, sbwriel, ffyrdd anniogel, llawer o lygredd a diffyg mannau gwyrdd.
44. Ar sail y dystiolaeth hon, mae fy adran yn dod â'n rhaglenni ynghyd er mwyn i ni gynnig arlwy integredig i gymunedau er mwyn cefnogi gwelliannau lleol ehangach a dyfnach. Bydd hyn hefyd yn cynnig "nwyddau" amgylcheddol ehangach fel datblygu sgiliau, swyddi, cyfleoedd gwirfoddoli a meithrin gwell ymdeimlad o gymuned.
45. Ym mis Ebrill, trefnais gynhadledd ar y cyd â'r Sefydliad Ymchwil Cynaliadwy ym Mhrifysgol Caerdydd i ddechrau ymchwilio i ystyr ymarferol

gwaith integredig. Mae'r Ganolfan yn gwneud gwaith amlddisgyblaethol i ymchwilio i welliannau ar sail lleoedd ac felly'n cefnogi'n ffyrdd o feddwl ar sut i symud ymlaen.

46. Mae angen i ni ddatblygu model newydd ar gyfer gweithio i sicrhau bod yr holl arlwy i gymunedau, o dan ein rhaglenni cyfredol a'r rheini sydd yn yr arfaeth, yn cael ei gydlynw a'i fod yn cynnig mwy yn ei grynsyth na'r rhannu unigol. Bydd cynllun grant newydd o £500,000, sydd ar agor i awdurdodau lleol ledled Cymru, yn helpu i leihau llygredd awyr a sŵn a datblygu mannau gwyrdd tawel.

### **Cynllunio**

47. Hefyd mae gwaith ar droed i ddiwygio'r system gynllunio. Ers datganoli, mae polisïau cynllunio cenedlaethol wedi cael eu diweddarw. Mae'r polisïau hyn yn briodol i anghenion Cymru, gan adlewyrchu'n hymrwymiad i sicrhau datblygu cynaliadwy, adnewyddu'r economi a thair fforddiadwy. Er mwyn helpu yn lleol, mae system newydd ar gyfer cynlluniau datblygu lleol wedi cael ei chyflwyno. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i wella'r broses ceisiadau cynllunio.
48. Mae'n Datganiad Deddfwriaethol 2011-16 hefyd yn cynnwys ymrwymiad i gydgrynhoi'r ddeddfwriaeth gynllunio gyfredol i'w gwneud yn fwy tryloyw a hygyrch. Caiff Papur Gwyn Cynllunio ei gyhoeddi yn 2013 ac mae cyfnod darpariaethol wedi cael ei nodi i gyflwyno Bil Cynllunio yn ystod sesiwn y Cynulliad 2015/16.
49. Mae'r Bil yn gyfle i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i ddatblygu'r agenda diwygio. Yn y gorffennol rydyn ni wedi gorfod dibynnu ar Filiau'r DU, is-ddeddfwriaeth a pholisi fel ein prif ysgogiadau. Mae'r gallw i greu'n deddfwriaeth sylfaenol ein hunain yn gyfle newydd y dylid ei groesawu.

### **Adeiladu**

50. Ar ben hyn, rwy'n obeithiol y caiff 'ymgyngoriad Rhan L y Rheoliadau Adeiladu (Arbed Tanwydd ac Ynni)' ar gyfer tai ac adeiladu annomestig ei lansio'n fuan. Cynhelir nifer o ddigwyddiadau ymgynghori yn ystod yr ymgynghoriad 12 wythnos i gael safbwyntiau'r diwydiant.
51. Rwyf hefyd wedi sefydlu Pwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu ac wedi penodi'r Athro Phil Jones yn gadeirydd. Mae'r pwyllgor cynghori wedi rhoi cyngor ar bob agwedd ar yr ymgynghoriad.
52. Rydyn ni'n ymrwymedig i sicrhau newid sylweddol, ond rydyn ni'n cydnabod anawsterau'r sefyllfa economaidd bresennol. Rydyn ni wedi rhoi blaenoriaeth i adeiladwaith i sicrhau bod yr adeiladau yng Nghymru yn gallu cynnig arbedion carbon sylweddol ac arbedion gwirioneddol i berchnogion tai drwy gydol oes yr adeilad.
53. Ar ben hyn, rwyf wedi cyhoeddi cynlluniau i osod systemau chwistrellu ym



mhob eiddo preswyl newydd ac addasedig yng Nghymru. Mae disgwyl i'r gwaith ddechrau ar ddatblygu rheoliadau a gofynion technegol i gyflwyno Mesur a fydd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Rhagwelir y bydd y rheoliadau'n cael eu cyflwyno ym mis Medi 2013.

### **Y Môr**

54. Fy amcan yw datblygu cynlluniau morol cenedlaethol ar gyfer ardaloedd glannau Cymru (hyd at 12 milltir) ac ar y môr (y tu hwnt i 12 milltir) erbyn 2015 er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy ar ein moroedd ac ar y tir.
55. Mae grŵp trawsbynciol wedi cael ei sefydlu yn Llywodraeth Cymru i weithio ar y prosiect cynllunio morol. Mae'n cynnwys swyddogion o bob maes polisi allweddol sy'n gweithio ar raglen fanwl. Caiff yr adnoddau gofynnol i gyflwyno'r prosiect eu hadolygu wedi i'r rhaglen fanwl gael ei hystyried.
56. Rwy'n ymrwymedig i integreiddio cynllunio morol gyda chynllunio gofodol arall, gan gynnwys cynllunio seilwaith, cynllunio datblygu lleol, a chynllunio adnoddau naturiol o dan *Cynnal Cymru Fyw*.
57. Rwyf hefyd yn ceisio sefydlu nifer fach o Barthau Cadwraeth Morol gwarchoddedig iawn yn nyfroedd tiriogaethol Cymru i gefnogi adferiad ecosystemau morol, eu cryfhau a gwella'n dealltwriaeth o'r amgylchedd morol. Y nod yw sefydlu 3-4 safle erbyn 2014.
58. Yr ymgynghoriad presennol yw'r cam cyntaf o broses ymgynghori tri cham. Mae hyn yn elfen bwysig o'r broses yng Nghymru er mwyn cryfhau'r dystiolaeth a sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau'n llywio ac yn mireinio'r opsiynau safleoedd. Rydyn ni megis dechrau ar y broses ac nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch pa safleoedd i'w dynodi.  
<http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/mczpotentialsites/?sessionid=vJvtPGpfvGJV2141N70W6vnqRDdGqRmYxnfpfTJy403sWrQM LpBZl-1822353977?lang=cy>

### **Ynni**

59. Ym mis Mawrth cyhoeddwyd *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel*. Mae'n disgrifio sut mae gwneud y gorau o'r manteision hirdymor i Gymru, gan weithio mewn partneriaeth gyda busnesau a chymunedau. Rydyn ni wrthi'n gweithio gyda'r diwydiant ynni gwynt ar y tir i gytuno ar leiafswm buddsoddiad yng Nghymru, a fydd yn gosod disgwyliadau ar gyfer manteision economaidd a chymunedol.
- Roedd *Ynni Cymru* yn canolbwyntio ar yr hyn y byddwn ni fel Llywodraeth yn ei wneud i lywio'r agenda, drwy:
    - gynnig arweiniad, er enghraifft drwy wella'n cyfundrefn reoleiddio a blaenoriaethu'n hymdrech drwy'r raglen ynni;

- sicrhau'r manteision gorau posibl i Gymru drwy sicrhau bod ein heconomi a'n cymunedau'n elwa a'n bod yn canolbwyntio ar y prosiectau a fydd yn cynnig y manteision mwyaf;
  - gweithredu er mwyn dyfodol ynni hirdymor Cymru, gan roi Cymru ar flaen y gad o ran arloesi, ymchwil a datblygu allweddol yn y meysydd sydd â'r potensial mwyaf, sef ynni morol a byw'n ddarbodus.
- Rydyn ni hefyd am fanteisio i'r eithaf ar y newid, er mwyn sicrhau dyfodol mwy ffyniannus, cadarn a chynaliadwy i Gymru, drwy wneud y gorau o'r manteision economaidd hirdymor, ac yn arbennig y potensial o gael cyfran fwy cymesur o'r 250,000 o swyddi newydd a ragwelir yn y DU erbyn 2020. <http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/energy/energywales/?lang=cy>

### **Rheoli Gwastraff**

60. Ein uchelgais, a nodir yn *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*, yw ailgylchu 70% o'n gwastraff erbyn 2025 a bod yn genedl ddiwastraff erbyn 2050. Ni yw'r un genedl sydd wedi nodi'n union sut byddwn yn gwneud hyn.
61. Cymru yw'r unig wlad yn y DU sydd wedi cyflwyno targedau ailgylchu/compostio statudol ar gyfer awdurdodau lleol. Rydyn ni wrthi'n cwblhau'r cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd, a fydd yn mynd i'r afael â'r cyfleusterau y mae'u hangen yng Nghymru i ddefnyddio'n gwastraff yn y ffordd fwyaf effeithlon.
62. Rydyn ni wedi gwneud cynnydd aruthrol dros y degawd diwethaf yng Nghymru o ran cyfran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu neu'i gompostio. Mae ffigur ailgylchu treigl diweddaraf yr awdurdodau lleol yn cadarnhau bod 47% o wastraff yn cael ei ailgylchu neu'i gompostio (lonawr – Rhagfyr 2011).
63. Mae Cymru'n perfformio'n well na gwledydd eraill y DU ac mae disgwyl iddi gyrraedd y targed ailgylchu statudol cyntaf (52% yn 2012/13).
64. Rydyn ni hefyd newydd ddechrau datblygu Rhaglen Atal Gwastraff, sy'n uno ofynion statudol y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig i'w chyhoeddi erbyn mis Rhagfyr 2013.

### **Newid yn yr Hinsawdd**

65. O ran y newid yn yr hinsawdd, cyhoeddwyd ein adroddiad cynnydd cyntaf ar gyflwyno Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd ym mis Mawrth. Mae'r adroddiad hwn yn pwysleisio gweithgarwch ledled Cymru i leihau allyriadau a pharatoi ar gyfer hinsawdd sy'n newid. Mae'n cynnwys nifer o enghreifftiau sy'n dangos sut rydyn ni'n arwain y ffordd ar y camau i'w cymryd i gyflawni hyn.
66. Mae Arbed, ein cynllun ynni strategol, wedi bod yn arbennig o

lwyddiannus. Mae Arbed, ynghyd â'n cynllun sgrapio boeleri a'r rhaglen effeithlonrwydd ynni cartrefi, wedi helpu i wneud 25,000 o gartrefi yng Nghymru yn haws ac yn rhatach i'w gwresogi, ac rydyn ni'n bwriadu adeiladu ar y llwyddiant hwn wrth i ni symud i ail gam y cynllun.

67. O ran ymaddasu, rydyn ni wedi cyhoeddi canllawiau newydd i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru ar ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd a strategaeth genedlaethol newydd ar reoli llifogydd. Rydyn ni hefyd wedi cydariannu Asesiad Perygl Newid Hinsawdd y DU a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, a byddwn yn defnyddio'r canfyddiadau i lywio'n Cynlluniau Ymaddasu Sectorol.

68. Rwyf hefyd wedi gofyn i Is-grŵp Defnydd Tir Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd sefydlu is-grŵp yn arbennig i ddatblygu'r agenda newid hinsawdd defnydd tir. Cadeirydd yr Is-grŵp Defnydd Tir yw'r Athro Gareth Wyn Jones a daw'i aelodau o'r byd academaidd, y diwydiant ffermio, mudiadau amgylcheddol a sefydliadau partner (Asiantaeth yr Amgylchedd, C yngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru).

### ***Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol***

69. Lansiais ein Strategaeth Genedlaethol gyntaf ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol ym mis Tachwedd 2011. Mae'n amlinellu'r peryglon rydyn ni'n eu hwynebu, yn rhoi manylion yr awdurdodau rheoli perygl a'r peryglon y mae pob awdurdod yn gyfrifol amdanynt, ac mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am fuddsoddi.

70. Rydyn ni'n buddsoddi dros £40 miliwn i reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn 2012/13. Caiff ein cyllideb ei hategu gan £50 miliwn drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, sydd ar gael tan 2015. Mae hyn wedi'n galluogi i adeiladu amddiffynfeydd newydd, fel y cynllun £12 miliwn sydd newydd ei gwblhau yn y Borth.

71. Rwyf hefyd yn ariannu'r gwaith o baratoi cynlluniau rheoli strategol ar gyfer llifogydd ledled Cymru ac adnewyddu cynlluniau cyfredol ar gyfer y glannau. Bydd y cynlluniau strategol hyn yn nodi polisiau rheoli perygl cynaliadwy ar gyfer pob rhan o'r glannau a phob dalgylch, gan lywio sut byddwn yn ymaddasu i beryglon cynyddol llifogydd ac erydu arfordirol yn sgil newid yn yr hinsawdd.

72. Mae hybu ymwybyddiaeth o'r peryglon y mae cymunedau'n eu hwynebu yn golygu y bydd yr unigolion sy'n byw ac yn gweithio yno'n fwy parod ar gyfer y peryglon y maen nhw'n eu hwynebu, a bod cymunedau hefyd yn dod at ei gilydd ac yn cyfrannu at y penderfyniadau ar sut i fynd i'r afael â'r peryglon hynny, gan feithrin cydlyniant cymunedol. Drwy ymgyrch Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru, mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi gweithio gyda chymunedau ledled Cymru i godi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd a gwneud cymunedau'n fwy cadarn. Hyd yn hyn mae dros 200 o gynlluniau llifogydd cymunedol wedi cael eu llunio ledled Cymru.

## **Polisi Dŵr**

73. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r cyfeiriad strategol ar gyfer polisi dŵr yng Nghymru, o fewn set gymhleth o gyfrifoldebau rheoleiddiol a gweithredol. Fy egwyddorion craidd yw sicrhau bod dŵr yfed diogel ar gael i bawb, cynnal gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth am bris fforddiadwy a chydymffurfio â rhwymedigaethau statudol sy'n sicrhau ansawdd dŵr yn gyffredinol.
74. Rydyn ni'n gweithio gyda rhanddeiliaid ar hyn o bryd i baratoi Strategaeth Ddŵr Cymru. Rwy'n bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad arni yr hydref hwn, a bydd y ddogfen ymgynghori:
- yn amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio'i gyflawni mewn perthynas â dŵr, yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy;
  - yn amlinellu'r heriau hirdymor rydyn ni'n eu hwynebu mewn perthynas â dŵr, gan dynnu ar dystiolaeth rhanddeiliaid yn y sector dŵr;
  - yn nodi lle mae angen newid i sicrhau ein bod yn gallu mynd i'r afael â'r heriau hynny a chyflawni'n hamcanion o hyd;
  - yn cynnig opsiynau ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny yn y tymor byr, canolig a hir, a nodi gofynion deddfwriaethol.

## **Iechyd a Lles Anifeiliaid**

75. I gefnogi'r polisi iechyd a lles anifeiliaid, mae fy amcanion allweddol yn cynnwys:
- hybu safonau uwch o ran iechyd a lles anifeiliaid a darparu gwasanaethau iechyd anifeiliaid sy'n addas at eu diben;
  - atal achosion o afiechydon heintus anifeiliaid a'u hatal rhag lledu, a chynnal parodrwydd o ran mynd i'r afael ag unrhyw achosion o glefyd anifeiliaid hysbysadwy sy'n digwydd yng Nghymru;
  - gweithio tuag at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i fynd i'r afael â TB gwartheg drwy wyddoniaeth;
  - cyfrannu at ddiogelu iechyd y cyhoedd.
